**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mark Barbour | Swyddog Bioamrywiaeth |
| Jeremy Davies | Arweinydd Grŵp Parciau a Glanhau |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Rachel Lewis | Rheolwr Prosiect |
| Simon Lydiard | Arweinydd Tîm - Parciau |
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Pamela Milford | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Alan Webster | Swyddog Coed |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: A S Lewis, M Thomas

---

## 24 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Personol - Cofnod Rhif: 26 – Rheoli a Chynnal Mannau Agored (Bioamrywiaeth).

## 25 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

## 26 Rheoli a Chynnal Mannau Agored (Bioamrywiaeth)

Cyflwynodd y Pennaeth Rheoli Gwastraff, gyda chymorth Swyddogion, ddiweddariad cynnydd ar yr adolygiad o reolaeth y cyngor o'i fannau gwyrdd.

Manylodd swyddogion ar y cynnydd hyd yma (gan gynnwys rôl y gweithgor), prynu offer, ymgysylltu â chyrff amgylcheddol, arolygon, profion gweithredol, paratoi ar gyfer ehangu profion y tymor nesaf, gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth, ymgynghori â'r gymuned a materion cyffredinol.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Dywedodd y Pennaeth Rheoli Gwastraff y byddai'n ofynnol datblygu polisi strategol yn y lle cyntaf, cyn unrhyw ymgynghoriad ehangach. Ailadroddodd yr heriau a wynebir gan Aelodau wrth gydbwyso ymrwymiad y cyngor i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd/natur a barn eu cymunedau lleol. Byddai angen rhoi ymarferion ymgynghori pellach ar waith fesul cam ar ôl i'r fframwaith cyffredinol gael ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd hyd yma a'r cyfeiriad teithio.
2) Y bydd Chris Howell yn gwahodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd P K Jones i gyfarfodydd Gweithgor y Swyddogion yn y dyfodol.
3) Y caiff Aelodau eu gwahodd i ddod i weithgor i drafod yr ymarfer ymgynghori ar-lein yn y dyfodol.

## 27 Polisi Coed

Cyflwynodd Swyddog Adran yr Amgylchedd Naturiol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth strategaeth ar gyfer rheoli coed ar/sy'n effeithio ar dir/eiddo dan berchnogaeth y cyngor ac yn nodi dyletswyddau'r cyngor mewn perthynas â choed a warchodir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y Strategaeth Rheoli Coed a'i chyfeirio at y Cabinet i'w chymeradwyo.

2) Cynnal ymarfer mapio i nodi safleoedd/parthau posib ar gyfer plannu ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn amodol ar argaeledd cyllid a chynhaliaeth yn y dyfodol.

## 28 Newid yn yr Hinsawdd.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Ionawr 2022.

## 29 Cynllun Gwaith 2020/2022

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2022 a dywedodd y byddai'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei thrafod yn y cyfarfod ar 20 Ionawr, 2022.

Trafododd yr Aelodau bynciau i'w trafod am weddill y flwyddyn ddinesig ac awgrymwyd y dylid gohirio'r eitem ynghylch Goleuadau Stryd tan y cyfarfod ar 17 Chwefror, 2022.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i drafod amseriad eitemau yn y dyfodol i'w hystyried ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.08 pm